Dafydd ap Gwilym – CA5

Tasg 2: Ysgrifennu creadigol

'… fel y byddai o'n rhyw fyfyrio ag ef ei hun […] am yr hyn yr oedd newydd ei ddarllen, gan ddefnyddio ei law i bwysleisio ambell beth yn ei fyfyrdod.' (t. 21)

Yn y dyfyniad uchod o'r ail bennod yn y *Llyfr Gwyn*, 'Yr Aelwyd', mae Gwyn Thomas yn sôn am ei daid. Sylwch sut y mae e wedi canolbwyntio ar un ystum ac wedi ei ddisgrifio'n llawn. Drwy hyn, rydym ni'r darllenwyr yn gallu 'gweld' taid yr awdur yn glir o flaen ein llygaid.

Cyfansoddwch dri pharagraff am eich aelwyd chi. Gallwch chi greu aelwyd ddychmygol pe hoffech chi, ond cofiwch graffu ar ambell fanylyn er mwyn dod â'r 'aelwyd' a'r bobl sy'n byw arni 'yn fyw' i'r darllenwyr.

Efallai y byddwch chi'n canolbwyntio ar ddarn o gelfi neu ar berthynas. Y peth pwysig yw meddwl am y manylion a dewis a dethol y rhai sy'n mynd i ddod â'r llun 'yn fyw'.

Dechreuwch gyda'r geiriau:

Mae ein haelwyd ni'n aelwyd ….